GENERATION NEW ERA

A STUDY OF CHILDREN BORN IN THE 2020s

FATHERHOOD INSTITUTE

UCL

Mae tadau'n bwysig

Pam mae angen i ni glywed gan dadau

Mae Generation New Era yn astudiaeth newydd bwysig sy'n dilyn miloedd o blant ledled y Deyrnas Unedig wrth iddynt dyfu i fyny. Er mwyn deall eu bywydau'n llawn, mae angen i ni gynnwys pob rhiant – **gan gynnwys pob tad**.

Pa rôl bynnag rydych chi'n ei chwarae ym mywyd eich plentyn – **rydyn ni eisiau clywed gennych chi.**

Eich cyfle i gael eich clywed

Mae llawer o dadau'n dweud wrthym mai anaml y cânt eu holi am eu profiad o fod yn dad. Mae'r astudiaeth hon yn rhoi'r cyfle i chi rannu eich profiad chi.

Mae stori pob tad yn wahanol. Mae eich profiadau, eich heriau, eich perthynas a'ch amser a dreulir gyda'ch plentyn i gyd yn bwysig. Drwy glywed gan dadau fel chi, gallwn ni ddeall yn well beth sydd ei angen ar blant a thadau, a'r ffordd orau o'u cefnogi.

"

Rwy'n falch iawn o fod yn dad yn yr 'astudiaeth'. Rwyf wedi bod yn rhan o rywbeth sydd wedi helpu gwyddonwyr ledled y byd i wneud darganfyddiadau sy'n effeithio'n wirioneddol ar sut rydyn ni'n byw heddiw.

Tad yn cymryd rhan yn yr astudiaeth Plant y 90au

Mae ymchwil gyda thadau eisoes wedi helpu i:

- wella cefnogaeth i iechyd meddwl tadau
- darparu cyngor gwell ar gwsg diogel i fabanod
- annog ymwelwyr iechyd ac ysgolion i gynnwys tadau
- llunio polisi'r llywodraeth, gan gynnwys pythefnos o absenoldeb tadolaeth â thâl.

Helpu i lunio dyfodol gwell i blant

Bydd yr hyn a ddywedwch wrthym yn helpu i wella:

- iechyd a datblygiad plant
- cefnogaeth i dadau
- gwasanaethau i deuluoedd

Oes angen help?

gnestudy.info

gnestudy@ipsos.com

0800 151 0610

@gnestudy

Sganiwch i weld pam mae tadau'n bwysig i'r astudiaeth:

Cael taleb fel diolch am gymryd rhan

Cymerwch ran mewn ffordd sy'n addas i chi

Dewiswch beth sy'n gweithio i chi, yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Dyddiau'r wythnos neu'r penwythnos. Ar-lein, dros y ffôn, neu gyda chyfwelydd. Byddwn ni'n gweithio o amgylch eich amserlen.

Mae eich gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel

Mae popeth rydych chi'n ei rannu'n **cael ei gadw'n breifat** a'i **ddefnyddio at ddibenion ymchwil yn unig**. Ni chaiff dim a ddywedwch ei rannu â rhiant arall eich babi. Dysgwch ragor: gnestudy.info/privacy

Ymunwch â miloedd o dadau sy'n gwneud gwahaniaeth. Byddwch yn rhan o Generation New Era.

24-030189-01/M-F1W